# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**ADRODDIAD**

**LEGISLATION COMMITTEE**
**REPORT**

## Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

### Y Cefndir

Mae Deddf Dysgu a Medrau 2000 (a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar y 28 Gorffennaf 2000) yn sefydlu corff i'w alw'n Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ("y Cyngor").

Prif swyddogaethau'r Cyngor yw i sicrhau y ddarpariaeth o gyfleusterau addas ar gyfer:

(a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas ar gyfer anghenion pobl sy'n hyn na'r oedran gadael ysgol gorfodol,

(b) hyfforddiant sy'n addas i anghenion y fath bobl,

(c) amser hamdden wedi'i drefnu mewn perthynas a'r fath addysg, ac

(ch) amser hamdden wedi'i drefnu mewn perthynas a'r fath hyfforddiant.

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf i ddod i rym drwy Orhymyn Cychwyn, a drwy hyn y bydd y Cyngor yn cael ei brif swyddogaethau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod a'r adrannau o'r Ddeddf a restrir yn yr Atodlen mewn i rym. Mae crynodeb o effaith adrannau hyn wedi'i gynnwys yn y Nodyn Esboniadol.

Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y ddrefn frys ar y 15 Medi 2000.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau i'w nodi fel materion sydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i dynnu sylw arbennig atynt.

**Sylwadau Cyffredinol**
Tynnodd Gynghorwyr Cyfriethiol y Pwyllgor sylw at un bwynt bach ac fe gywiriwyd y Gorchymyn o ganlyniad.

**Dr. DAI LLOYD AM**
Cadeirydd Dros Dro Y Pwyllgor Deddfau
**31 Hydref 2000**